Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llesiant Cymru: 2025



Adroddiad am y cynnydd y mae Cymru yn ei wneud tuag at wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddarllen o 'Llesiant Cymru: 2025. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru o ran cyflawni'r 7 nod llesiant.

Dyddiad: Hydref 2025

# Cynnwys


Cyflwyniad 4

Sut rydym yn mesur llesiant 8

1. Cymru lewyrchus 9

2. Cymru gydnerth 13

3. Cymru iachach 17

4. Cymru sy'n fwy cyfartal 19

5. Cymru o gymunedau cydlynus 22

6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu 25

7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang 28

Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn 31

Geiriau anodd 33



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53132, ISBN digidol 978-1-80633-482-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh
made with PHOTO SYMBOLS®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon




Mae hon yn ddogfen hawdd ei darllen. Ond efallai y byddwch chi'n dal i fod angen cymorth i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu.



Gall geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei olygu ar dudalen 33.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:




Gwefan: www.llyw.cymru/llesiant-cymru





E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru



Ffôn: 0300 025 1154

# Cyflwyniad




Dyma'r 9fed tro i ni wneud un o'r adroddiadau hyn am **Lesiant** Cymru. Pan fyddwn ni'n dweud **llesiant**, rydyn ni'n golygu:


Llesiant economaidd

- **Llesiant economaidd** sy'n ymwneud â phethau fel cael swydd, rhedeg busnes a chael incwm.


Llesiant cymdeithasol

- **Llesiant cymdeithasol** sy'n ymwneud â phethau fel ein cymuned a'n gwerthoedd.


Llesiant amgylcheddol

- **Llesiant amgylcheddol** sy'n ymwneud â natur, tir, dŵr ac aer.


Llesiant diwylliannol

- Mae **llesiant diwylliannol** yn cynnwys pethau sy'n dod â ni at ein gilydd fel hanes, barddoniaeth a digwyddiadau fel yr Eisteddfod.

- A'ch **llesiant** chi hefyd.



Mae **llesiant** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.




Rydym yn ysgrifennu'r adroddiad hwn i ganfod a yw Cymru'n cyflawni'r 7 **nod llesiant ar gyfer Cymru**.

Mae'r nodau hyn wedi'u nodi yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**.




Mae hon yn gyfraith sy'n awyddus i wneud Cymru'n lle gwell i chi fyw ynddo ac i bobl yn y dyfodol.





Mae gan y gyfraith 7 nod a fydd yn helpu Cymru i ddod yn wlad fwy **cynaliadwy**.

Mae bod yn **gynaliadwy** yn golygu defnyddio'r pethau sydd eu hangen arnom i fyw ein bywydau ond gan wneud yn siŵr bod digon ar ôl o hyd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r rhain yn cael eu galw'n **nodau llesiant** am eu bod yn disgrifio'r pethau da rydyn ni eisiau eu gwneud.


Y **7 nod llesiant** ar gyfer Cymru yw:




**1. Cymru Iewyrchus.**




**2. Cymru gydnerth.**




3. Cymru iachach.




4. Cymru sy'n fwy cyfartal.




5. Cymru o gymunedau cydlynus.




6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.




7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

**Byddwn yn siarad mwy am y nodau hyn a'r hyn maen nhw'n ei olygu yn y ddogfen.**

# Sut rydyn ni’n mesur llesiant




I gael gwybod a yw Cymru’n gwneud cynnydd tuag at y **nodau llesiant**, rydyn ni’n casglu gwybodaeth a data.




Yna, caiff y **nodau llesiant** eu rhannu’n 50 nod llai. Rydyn ni’n galw rhain y **ddangosyddion cenedlaethol**.




Mae gennym hefyd nodau tymor hir sy’n cael eu galw yn **gerrig milltir**. Mae’r rhain yn rhoi mwy o wybodaeth am faint o newid sydd ei angen ar gyfer pob nod. Maen nhw’n rhoi gwell syniad i ni o’r hyn rydyn ni’n ei wneud.




Mae gweddill y ddogfen yn sôn am yr hyn sydd wedi cael ei gyflawni ar gyfer pob un o’r **nodau llesiant** yn y flwyddyn ddiwethaf.

# 1. Cymru lewyrchus




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â helpu Cymru i wneud yn dda fel gwlad mewn ffordd glyfar a theg.**

Mae'n golygu:




- Helpu'r economi i dyfu er mwyn i bobl gael swyddi da.

- Gwneud yn siŵr bod gwaith a chyflogau'n deg.




- Helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd a chael addysg dda.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:



- Mae **economi'r** DU wedi tyfu'n araf dros y ddwy flynedd ddiwethaf.



Yr **economi** yw gwerth y pethau rydyn ni’n eu gwneud a’u gwerthu. A faint o arian rydyn ni’n ei wario.




- Collwyd rhai swyddi, yn enwedig mewn meysydd cyflog isel fel lletygarwch, ond mae swyddi sector cyhoeddus (fel mewn ysgolion ac ysbytai) yn tyfu.

- Mae’r gwahaniaethau mewn cyflogaeth rhwng Cymru a rhannau eraill o’r DU yn llai nag yr oeddent yn arfer bod.

- Mae **arloesedd mewn busnesau** wedi gwella rhywfaint dros y blynyddoedd diwethaf.




**Arloesi mewn busnes** yw’r broses o gyflwyno syniadau, cynhyrchion, gwasanaethau neu ddulliau newydd sy’n ychwanegu gwerth.




- Mae pobl yng Nghymru yn ennill llai o arian na phobl yn y rhan fwyaf o rannau eraill o’r DU.

- Mae **tlodi** a chyflogau isel yn dal yn broblem. Mae tua 1 o bob 5 o bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi ac mae 1 o bob 4 aelwyd yn ei chael hi’n anodd fforddio gwresogi.




Mae **tlodi’n** golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.



- Dim ond dwy ran o dair o weithwyr yng Nghymru sy’n ennill o leiaf y ‘cyflog byw gwirioneddol’ (cyflog sy’n cael ei ystyried yn ddigon i fyw arno).




- Mae’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn llai o lawer nawr nag oedd ugain mlynedd yn ôl.




Y **bwlch cyflog rhwng y rhywiau** yw'r gwahaniaeth drwodd a thro yn y cyflogau cyfartalog y mae dynion a menywod yn eu cael yn y diwydiant.



- Mae gweithwyr anabl a gweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn dal i ennill llai, ond mae'r bwlch yn lleihau.



- Mae mwy o bobl yn ennill cymwysterau ac mae mwy o bobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant neu waith.



- Yn aml, nid yw plant o gefndiroedd tlotach yn gwneud cystal yn yr ysgol.

# 2. Cymru gydnerth




**Mae'r nod hwn yn ymwneud ag amddiffyn byd natur a helpu Cymru i ymdopi â newid.**

Mae'n golygu:



- Gofalu am fywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol.

- Cadw ein haer, ein tir a'n dŵr yn iach.



- Bod yn barod am newidiadau mawr fel newid yn yr hinsawdd.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:

- Mae Cymru'n defnyddio ei **hadnoddau naturiol** yn gyflym iawn.



Mae **adnoddau naturiol** yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.




- Mae llawer o waith i'w wneud i amddiffyn pobl rhag risgiau yn yr amgylchedd. Er enghraifft, llifogydd.

- Mae **llygredd aer** yn gostwng yn gyffredinol, ond mae'n dal yn risg i iechyd pobl.



Mae **llygredd aer** yn cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i gynhesu ein cartrefi a phethau eraill.




- Mae gan Gymru un o'r cyfraddau **ailgylchu** gorau yn y byd. Ond rydyn ni'n dal i ddefnyddio mwy o adnoddau naturiol nag y gallwn eu cyfnewid.

**Ailgylchu** yw pan fyddwn yn troi ein sbwriel yn rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio eto.




- Mae faint o wastraff rydym yn ei ailgylchu wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf.



- Mae oddeutu traean o'r trydan sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn dod o ynni adnewyddadwy. Mae hyn yn golygu ynni sy'n dod o bethau fel ffermydd gwynt neu ynni'r haul.



- Mae llai o **fioamrywiaeth** nag yr oedd yn arfer bod. Y rheswm am hyn yw bod llai o leoedd i anifeiliaid a phlanhigion fyw a thyfu.




**Bioamrywiaeth** yw'r holl wahanol fathau o fywyd sy'n cael ei weld mewn un ardal. Er enghraifft, planhigion ac anifeiliaid.



- Yn gyffredinol, mae dŵr o ansawdd gwell nag yr oedd yn arfer bod. Mae hyn mewn moroedd, afonydd, nentydd ac ar y tir.

# 3. Cymru iachach




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â helpu pobl yng Nghymru i fod mor iach â phosibl.**

Mae'n golygu:



- Cefnogi iechyd corfforol a meddyliol pobl.
- Helpu pawb i wneud dewisiadau da ar gyfer eu hiechyd.


Deall

- Gwneud yn siŵr bod pobl yn deall sut gall eu gweithredoedd heddiw eu helpu i gadw'n iach yn y dyfodol.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:

- Rydyn ni'n byw'n hirach, ond nid yw hyn yn gwella mor gyflym ag yr arferai.



- Rydyn ni'n byw am lai o amser mewn cyflwr iach. Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach yn byw llai o'u bywydau mewn iechyd da.



- Mae canran y babis sy'n cael eu geni gyda phwysau geni isel wedi cynyddu.



- Yn gyffredinol, mae pobl yn gwneud mwy o ddewisiadau iachach, ond nid yw eu hiechyd meddwl wedi gwella.



- Mae tai mewn cyflwr gwell ac yn fwy diogel nag yr oeddent yn arfer bod.

# 4. Cymru sy'n fwy cyfartal




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle teg mewn bywyd.**

Mae'n golygu:



- Helpu pobl i gyflawni eu llawn botensial.

- Gwneud yn siŵr nad yw eich cefndir na'ch sefyllfa mewn bywyd yn eich dal yn ôl.



- Cefnogi pobl o bob cefndir, gan gynnwys y rheini sydd â llai o arian neu lai o gyfleoedd.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:



- Mae plant ddwywaith yn fwy tebygol o fyw mewn **tlodi** na phensiynwyr.



- Mae llesiant oedolion hŷn yn uwch ac maen nhw'n teimlo'n llai unig nag oedolion iau.



- Mae plant o rai **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn gwneud yn well yn yr ysgol.



Mae **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn bobl sy'n dod o gefndir neu wlad wahanol i'r mwyafrif o bobl eraill mewn cymdeithas.



- Mae pobl wyn yn fwy tebygol o fod mewn gwaith na phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig ond mae'r gwahaniaeth yn llai nag yr arferai fod.

- Mae llesiant pobl o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn uwch na llesiant pobl wyn.



- Mae pobl anabl yn llai tebygol o fod mewn gwaith ac yn fwy tebygol o fyw mewn **tlodi** na phobl sydd ddim yn anabl. Mae'r ddau wahaniaeth hyn wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf.



- Mae pobl anabl sy'n gweithio yn ennill llai o arian ar gyfartaledd na'r rhai sydd ddim yn anabl.



**Is**



- Mae llesiant pobl anabl yn is na llesiant pobl sydd ddim yn anabl.

- Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn llai nawr nag yr arferai fod.



- Mae'r teimladau o ddiogelwch wedi aros fwy neu lai'r un fath, gyda dynion yn teimlo'n fwy diogel na menywod.

# 5. Cymru o gymunedau cydlynus




**Mae’r nod hwn yn ymwneud â helpu cymunedau yng Nghymru i deimlo’n ddiogel, yn groesawgar ac wedi’u cysylltu’n dda.**

Mae’n golygu:



- Gwneud lleoedd yn lleoedd braf i fyw ynddynt.



- Helpu cymunedau i aros yn gryf a gweithio’n dda gyda’i gilydd.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo’n ddiogel.





- Helpu pobl i gadw mewn cysylltiad â’i gilydd ac â gwasanaethau.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:

**6 o 10**




- Mae bron i 6 o bob 10 o bobl yn dweud eu bod yn teimlo’n rhan o’u cymuned ac yn cyd-dynnu’n dda â phobl eraill. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o deimlo fel hyn na phobl ifanc.




- Yn ystod pandemig COVID-19, roedd pobl yn teimlo’n fwy fel rhan o’u cymuned. Ond yn ddiweddar, mae’r teimladau hynny wedi mynd yn ôl i’r ffordd roedden nhw o’r blaen.

**8 out of 10**



- Mae ychydig dros 8 o bob 10 o bobl yn teimlo’n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.

- Mae llai o bobl yn teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal.




- Mae dynion yn teimlo’n fwy diogel na menywod ar ôl iddi dywyllu.




- Mae tua 3 o bob 10 oedolyn yn gwirfoddoli. Dangoswyd bod hyn yn gwella **llesiant**.



- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae llai o droseddau wedi cael eu cofnodi gan yr heddlu. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn profi trosedd.



- Er gwaethaf hyn, mae llawer o bobl yn meddwl bod troseddu wedi cynyddu.




- Mae nifer yr aelwydydd sydd wedi cael eu hatal rhag bod yn ddigartref wedi gostwng ac mae llai o bobl yn byw mewn llety tymor byr.

# 6. Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu




**Mae’r nod hwn yn ymwneud â dathlu diwylliant Cymru a helpu’r Gymraeg i dyfu.**

Mae’n golygu:



- Gwarchod traddodiadau, hanes ac iaith Cymru.



- Annog pobl i fwynhau’r celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon a gweithgareddau hwyliog.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan mewn bywyd diwylliannol.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:




- Mae 7 o bob 10 o bobl yn gweld neu'n cymryd rhan yn y celfyddydau neu ddiwylliant. Mae hyn yn golygu gwneud pethau fel gweld ffilm neu gerddoriaeth fyw, neu fod mewn drama.



- Ddeng mlynedd yn ôl, roedd mwy o blant yn mynychu gweithgareddau celfyddydau ac yn cymryd rhan ynddynt. Nawr, mae llai o blant yn gwneud y gweithgareddau hyn.




- Yn ôl y Cyfrifiad, mae canran y siaradwyr Cymraeg ar ei isaf erioed.



- Mae llai o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon rheolaidd y tu allan i'r ysgol.



- Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd. Mae ychydig dros 1 o bob 3 yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos.



- Mae **adeiladau rhestredig** yng Nghymru mewn cyflwr ychydig yn well ers 2015, ond mae **henebion** yn gwaethygu.



Adeiladau fel hen dai neu eglwysi yw **adeiladau rhestredig**.
Gofelir amdanynt am fod ganddynt hanes neu gynllun arbennig.



Mae **henebion** yn hen lefydd fel cestyll, safleoedd claddu neu adfeilion. Maen nhw wedi'u diogelu i'w hatal rhag cael eu difrodi neu eu newid.

# 7. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang




**Mae'r nod hwn yn ymwneud â gwneud dewisiadau yng Nghymru sydd hefyd yn helpu pobl a'r blaned ledled y byd.**

Mae'n golygu:



- Meddwl am sut mae ein gweithredoedd yng Nghymru yn effeithio ar wledydd eraill.





- Gwneud yn siŵr ein bod yn helpu i wella llesiant ym mhob man, nid dim ond yng Nghymru.



- Deall bod yr hyn rydym yn ei wneud yma yn gallu cael effeithiau da neu ddrwg mewn rhannau eraill o'r byd.

- Gweithio tuag at ddyfodol teg a chynaliadwy i bawb.

## Yr hyn wnaethon ni ganfod:




- Rydym yn gwella o ran lleihau nwyon tŷ gwydr. Nwyon sy'n niweidio'r amgylchedd yw'r rhain.




- Mae Cymru'n dal i roi llawer o bwysau ar y blaned. Mae hyn yn golygu ein bod yn defnyddio gormod o adnoddau.



- Y sector cyflenwi diwydiant sy'n achosi'r rhan fwyaf o nwyon tŷ gwydr, er enghraifft ffatrïoedd a busnesau sy'n gwneud pethau.



- Cyfeiriwyd tua'r un nifer o bobl fel dioddefwyr **caethwasiaeth fodern** â'r llynedd. Mae hyn yn golygu nad yw'r broblem wedi gwella nac wedi gwaethygu.



**Caethwasiaeth fodern** yw pan mae pobl yn cael eu gorfodi i weithio heb ddewis gwneud hynny. Dydy llawer ohonyn nhw ddim yn cael eu talu ac efallai nad ydyn nhw'n rhydd i adael neu fyw fel maen nhw eisiau.






- Mae'r rhan fwyaf o blant ifanc yng Nghymru yn dal i gael eu brechiadau, sy'n helpu i ddiogelu plant rhag salwch difrifol. Ond mae llai o blant yn eu cael o'i gymharu ag ychydig flynyddoedd yn ôl.



- Mae llawer o bobl yn dysgu am faterion byd-eang yn y coleg a'r ysgol.

# Rhagor o wybodaeth am yr adroddiad hwn




Mae'r adroddiad hwn am **lesiant** Cymru yn cael ei gynhyrchu bob blwyddyn.




Mae'n cael ei gynhyrchu oherwydd cyfraith o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



Caiff yr adroddiad eu gwneud drwy edrych ar nifer o adroddiadau, arolygon ac ymchwil gwahanol sy'n dweud mwy wrthym am **lesiant** Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r adroddiad wedi cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru.




Mae fersiwn lawn yr adroddiad hwn ar gael ar-lein ar: www.llyw.cymru/llesiant-cymru Canllaw i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Dogfen hawdd ei darllen yw hon gan Lywodraeth Cymru Cyhoeddwyd Mawrth 2022.

# Geiriau anoddd

**Llygredd aer** Mae hwn yn cael ei achosi gan geir, trafnidiaeth arall, llosgi tanwydd i gynhesu ein cartrefi a phethau eraill.

**Bioamrywiaeth** Bioamrywiaeth yw'r holl wahanol fathau o fywyd sy'n cael ei weld mewn un ardal. Er enghraifft, planhigion ac anifeiliaid.

**Economi** Yr economi yw gwerth y pethau rydyn ni'n eu gwneud a'u gwerthu. A faint o arian rydyn ni'n ei wario.

**Chwyddiant** Chwyddiant yw pan fydd pris pethau'n newid. Pan mae'n codi a gall pobl brynu llai gyda'u harian.

**Arloesi mewn busnes** yw'r broses o gyflwyno syniadau, cynhyrchion, gwasanaethau neu ddulliau newydd sy'n ychwanegu gwerth.

**Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau** Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth drwodd a thro yn yr enillion cyfartalog y mae dynion a menywod yn eu cael yn y diwydiant.

**Adeiladau rhestredig** Adeiladau fel hen dai neu eglwysi yw'r rhain. Gofelir amdanynt am fod ganddynt hanes neu gynllun arbennig.

**Caethwasiaeth fodern** yw pan mae pobl yn cael eu gorfodi i weithio heb ddewis gwneud hynny. Dydy llawer ohonyn nhw ddim yn cael eu talu ac efallai nad ydyn nhw'n rhydd i adael neu fyw fel maen nhw eisiau.

**Henebion** Hen lefydd fel cestyll, safleoedd claddu neu adfeilion yw'r rhain. Maen nhw wedi'u diogelu i'w hatal rhag cael eu difrodi neu eu newid.

**Tlodi** Mae tlodi'n golygu bod heb ddigon o arian i fyw bywyd diogel a chyfforddus.

**Adnoddau naturiol** Mae'r rhain yn bethau fel coedwigoedd, tir, pridd, aer, planhigion a bywyd gwyllt.

**Ailgylchu** Ailgylchu yw pan fyddwn yn troi ein sbwriel yn rhywbeth y gallwn ei ddefnyddio eto.

**Llesiant (person)** Mae llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

**Llesiant** Mae llesiant yn cynnwys cyflwr ein heconomi, ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n diwylliant.